O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1177 (Cy.157)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Llanfairpwll i Engedi, Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *21 Ebrill 2011*

Yn dod i rym *4 Mai 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain-Caergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mai 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Llanfairpwll i Engedi, Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 4 Mai 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar hyd naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain, neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

4. (1) Er bod symud cerbydau yn cael ei wahardd gan erthygl 3 ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 10, heb gael ei wahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Er bod symud cerbydau yn cael ei wahardd gan erthygl 3 ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 10, heb gael ei wahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru'n gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal, na pheri i unrhyw feiciau pedal gael eu reidio ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3.2 o fetrau fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2, 4, 5 a 7.

10. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ebrill 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru .

YR ATODLEN

Atodlen 1
Terfyn Cyflymder 40 mya

Cyfnod 1

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant, i ganolbwynt Cyffordd 5, Cyfnewidfa Engedi.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 5, Cyfnewidfa Engedi, i ganolbwynt Cyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant.

4. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 5, Cyfnewidfa Engedi.

Cyfnod 2

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 3100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant, i ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael-y-Bowl, gan gynnwys y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, a'r darn cyfan o'r ffordd